

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 09.10.20

Er fod pethau yn wahanol yn yr ysgol ar hyn o bryd, mor braf yw gallu dweud fod popeth yn parhau i fynd yn dda, a'r rheswm am hynny yw y cydweithio llwyddiannus sy'n bodoli rhwng yr ysgol a chithau.

Although things are different in school at present, it is great to be able to say again this week that things continue to go well, and the reason for this is the successful co-operation that remains between the school and yourselves.

BRECWAST AM DDIM – FREE BREAKFAST

Ni ellir gor-bwysleisio pa mor bwysig yw hi eich bod chi'n rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosib os nad yw eich plentyn am ddefnyddio y Clwb Brecwast am Ddim unrhyw bryd yr ydych wedi'u cofrestru ar ei gyfer. Mae hynny'n galluogi'r rhieni nad ydynt wedi gallu cofrestru, i wneud hynny os oes lleoedd gwag wedi'u rhyddhau.

It cannot be over emphasised how important it is that you inform us as soon as possible if your child will not need to use the Free Breakfast facility at any time that you have registered him/her for it. This enables other parents who have not been able to pre book a place, to do so if spaces have become available.

CYSYLLTU GYDA'R SWYDDFA – CONTACTING THE OFFICE.

Os yr hoffech gysylltu gyda swyddfa'r ysgol, gofynnir i chi wneud hynny dros y ffôn os yw'n bosib os gwelwch yn dda, gan na ellir gwarantu bod e byst yn cael eu gweld bob amser.

If you would like to contact the school office at any time, you are asked to do so over the phone if this is possible please, as it cannot be guaranteed that e mails are picked up every time.

DILLAD - CLOTHING

Fel y nodwyd ar yr app yr wythnos hon ac yn y Cylchlythyr diwethaf, yr unig ddiwrnod nad yw'r disgyblion yn gwisgo eu gwisg ysgol yw'r un pan mae eu blynyddoedd dysgu yn cael gwersi Addysg Gorfforol.

Cofiwch wneud yn siwr hefyd fod eich plentyn/plant yn dod â chôt law efo nhw i'r ysgol bob dydd rwan os gwelwch yn dda.

As was noted on the app this week and in last week's Newsletter, the only day that the pupils do not wear their school uniform is the day that their teaching years have Physical Education sessions.

Would you also ensure that the children bring a rain coat with them to school every day from now on please.

PARCIO - PARKING

Yn anffodus, mae cwynion yn dal i'n cyrraedd am y parcio o gwmpas yr ysgol. Sylweddolir bod lleoedd addas yn brin, ond gofynnir yn garedig i BAWB gadw at y rheolau a osodir – sef nad oes neb i barcio ar y llinellau zig zag, ar fynedfeydd tai cyfagos, mewn stâd breifat nac ar arhosfan y bysiau.

Os yw'n amhosib parcio mewn lle diogel yn agos i'r ysgol, mae'n werth nodi ei bod yn bosib parcio yn rhad ac am ddim ym maes parcio'r dref ger Iceland ar hyn o bryd.

Unfortunately, complaints still come to us regarding the parking around the school. It is fully understood that spaces are limited, but EVERYONE is asked to adhere to the rules of not parking on the zig zag lines, on the entrances to neighbouring houses, in a private estate or the bus stop.

If it's impossible to park in a safe place near the school, it's worth noting that it's possible to park free of charge in the town's car park near to Iceland at present.

GWAITH ADEILADU – BUILDING WORK

Er i ni gael gwybod yn wreiddiol y byddai'r gwaith ar yr estyniad yn cychwyn ddechrau mis Hydref, nid yw hyn wedi digwydd, ac fe'n hysbysir na fydd yn dechrau tan o leiaf ar ôl y 3ydd o Dachwedd. Nid ydym wedi derbyn yr union ddyddiad hyd yma, ond pan fyddwn wedi'i derbyn, byddaf yn eich hysbysu ar unwaith.

Although we were originally informed that the work on the extension would commence at the beginning of October, this has not happened, and we are now told that it won't commence until at least November 3rd. We haven't received the exact date as yet, but when we do, I will inform you at once.

DYDDIADAU I'W COFIO – DATES TO REMEMBER.

Wele grynodedb o rai dyddiadau arwyddocaol i'r dyfodol. *To follow is a list of significant dates for the future:*

- | | |
|-----------------|--|
| 22.10.20 | Diwrnod Imiwneiddio rhag y ffliw – <i>Flu Immunisation Day.</i> |
| 23.10.20 | Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – <i>School closes for the half term holiday.</i> |
| 02.11.20 | Ysgol yn ail agor wedi'r gwyliau hanner tymor – <i>School re-opens following the half term holiday.</i> |
| 06.11.20 | Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am addysg uwchradd ym Medi 2021 – <i>Closing date for application of secondary education in September 2021.</i> |
| 20.11.20 | Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am y Derbyng ar gyfer Medi 2021 – <i>Closing date for Reception applications for September 2021.</i> |